# PWYLLGOR TRWYDDEDU DIOGELWCH CYHOEDDUS

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 7 Chwefror, 2023.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd P. Drake (Cadeirydd); Cynghorydd J.M. Norman (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr G. Bruce, V.P. Driscoll, R. Fisher, C.P. Franks, E. Goodjohn, H.C. Hamilton, W.A. Hennessy, N.B. Marshallsea and M.J.G. Morgan.

## 673 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

## 674 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr L. Burnett a M.R. Wilkinson.

## 675 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf, 2022 fel cofnod cywir.

## 676 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

## 677 DIWYGIAD ARFAETHEDIG I AMODAU CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT (CAT) -

Cyflwynodd y Swyddog Polisi Trwyddedu yr adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth Aelodau i ymgynghori â'r fasnach tacsis a cherbydau hurio preifat yng Nghyngor Bro Morgannwg ar ddiwygiadau arfaethedig i amodau trwyddedu Cerbydau Hacni a Hurio Preifat er mwyn hybu diogelwch y cyhoedd.

Mae cyfran o drwyddedeion/perchnogion cerbydau yn rhentu, prydlesu neu fenthyg eu cerbyd i yrwyr trwyddedig eraill, fodd bynnag, nid yw'r amodau presennol yn gofyn i'r trwyddedai gadw cofnodion o bwy oedd yn gyrru'r cerbyd drwy gydol ei gyfnod. Roedd yr Awdurdod Trwyddedu yn cynnig diogelu'r

cyhoedd ymhellach drwy ychwanegu'r amod fel y nodir yn yr adroddiad i amodau Trwyddedu Cerbydau Hacni a Hurio Preifat.

Mae'r Cadeirydd ar ddeall fod yr un amodau eisoes wedi eu cyflwyno yng Nghaerdydd a Phen-y-bont ar Ogwr gafodd ei gadarnhau gan y Swyddog Polisi Trwyddedu.

Gofynnodd y Cynghorydd Morgan am eglurhad a oedd modd benthyg cerbydau neu eu llogi i yrwyr tacsi oedd wedi'u rheoleiddio yn unig. Cadarnhaodd y Swyddog Polisi Trwyddedu mai dim ond gyrrwr cerbyd hacni hurio preifat sydd wedi'i drwyddedu fyddai'n gallu gyrru'r cerbyd hwnnw ac y byddai'n drosedd fel arall.

Gofynnodd y Cadeirydd pryd byddai'r ymgynghoriad yn dechrau. Cadarnhaodd y Swyddog Polisi Trwyddedu pe bai Aelodau'n bwriadu cytuno ar yr Argymhelliad y byddai'r ymgynghoriad yn dechrau ar unwaith.

Gofynnodd y Cadeirydd am unrhyw gwestiynau, sylwadau neu faterion o eglurhad gan y Pwyllgor. Ni chodwyd unrhyw faterion.

Ar ôl ystyried yr adroddiad yn llawn,

PENDERFYNWYD – Awdurdodu Swyddogion i gynnal ymgynghoriad 14 diwrnod gyda'r fasnach tacsis a hurio preifat gyda Chyngor Bro Morgannwg ar:

i) Ddiwygio amodau Cerbydau Hacni a Cerbydau Hurio Preifat i gynnwys yr amod:

Yn achos Trwyddedeion/Perchenogion sy'n rhentu, prydlesu, llogi neu fenthyg eu [Cerbydau Hacni] [Hurio Preifat], bydd y Trwyddedai/Perchennog yn cadw a darparu cofrestr addas gan nodi arni'r manylion canlynol o ran manylion y gyrrwr y rhentwyd, llogwyd, prydleswyd neu fenthycwyd y cerbyd iddo.

a) Enw a chyfeiriad y gyrrwr.
b) Rhif y Bathodyn a dyddiad dod i ben y Drwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni/Hurio Preifat o ran y gyrrwr.
c) Rhif plât a rhif cofrestru'r cerbyd a rentwyd, llogwyd, benthycwyd neu brydleswyd;
ch) Dyddiad(au) ac amser(oedd) rhentu, llogi, prydlesu neu fenthyg y cerbyd gan y gyrrwr.

Cedwir y cofnodion am o leiaf 12 mis, byddant mewn trefn gronolegol a rhaid eu cyflwyno ar gais i swyddog awdurdodedig y Cyngor neu gwnstabl yr heddlu i'w harolygu.

<u>Y rheswm dros y penderfyniad</u>

Hybu diogelwch y cyhoedd drwy gryfhau amodau trwyddedu cerbydau presennol.